# Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

# Gwasanaethau Rheoleiddio

Enw'r Polisi: **Gweithdrefn Ymgeisio a Phrofi Ymgeiswyr Gyrwyr Cerbydau Hurio Preifat a Cherbydau Hacni**

**Cyflwyniad**

Rhaid i holl geisiadau ar gyfer trwydded Cerbyd Hacni neu Gerbyd Hurio Preifat ddilyn gweithdrefn ddynodedig. Y rheswm dros hyn yw sicrhau bod yr holl ymgeiswyr yn bodloni'r holl feini prawf perthnasol ac yn bodloni'r prawf addas a phriodol.

**Cyffredinol**

Mae'n rhaid i ymgeisydd fod â thrwydded yrru llawn y DU am fwy na 12 mis a rhaid bod ganddynt drwydded o'r fath pan fyddant yn cyflwyno eu cais. Yn ogystal, cyn y gall yr Awdurdod trwyddedu roi trwydded, mae'n rhaid iddynt fod yn fodlon bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol.

Mae'n rhaid cyflwyno'r ffurflen gais ar-lein, y dogfennau digidol ategol a thalu'r ffi er mwyn i'r cais gael ei dderbyn. Rhaid i'r ymgeisydd fynychu Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Diogelu ar gyfer sesiwn ymwybyddiaeth Gyrwyr Cerbyd Hacni a Cherbyd Hurio Preifat a phasio'r prawf gwybodaeth cyn cymeradwyo'r Drwydded.

Mae nifer o ddogfennau sy'n cynnwys y wybodaeth y bydd yr awdurdod trwyddedu yn ystyried wrth benderfynu ar gais, ac mae'r rhain yn cynnwys:

- Is-ddeddfau Cerbydau Hacni
- Amodau Gyrwyr
- Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a'r Polisi Euogfarnau Troseddol
- Canllawiau'r Sefydliad Trwyddedu i benderfynu ar addasrwydd ymgeiswyr a deiliaid trwydded yn y masnachau cerbydau hacni a hurio preifat

Rhaid i'r ymgeisydd gwblhau'r ffurflen ar-lein. Er mwyn cwblhau'r ffurflen, rhaid i'r dogfennau digidol canlynol fod ar gael.

- Trwydded Yrru Lawn y DVLA (a gynhelir am o leiaf 12 mis) yn rhoi manylion eich cyfeiriad post llawn cyfredol.
- Cod Gwirio'r DVLA
- Tystysgrif Gwiriad GDG Manwl
- Ffurflen adroddiad meddygol a gwblhawyd gan nodi addasrwydd i yrru cerbyd trwyddedig. Mae'n rhaid i'r adroddiad gael stamp Meddyg wedi'i ardystio arno. Rhaid cael ei lunio gan feddyg sydd wedi cael mynediad at hanes meddygol llawn yr ymgeisydd.
- Pasbort gwreiddiol yr UE neu dystiolaeth bod gennych hawl i weithio / byw yn yr UE / y DU am gyfnod amhenodol.
- Llun maint/math pasbort (i'w roi ar y bathodyn)

- Cod treth 9 cymeriad - Llenwi gwiriad treth ar gyfer tacsi neu gerbyd hurio preifat neu drwydded metel sgrap - GOV.UK (www.gov.uk)

**Collfarnau Troseddol a'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd**

Rhaid i yrrwr fod o gymeriad da, ac er mwyn sefydlu hyn, bydd gwiriad cofnodion troseddol 'manylach' gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) yn cael ei gwblhau. I gael mwy o wybodaeth, gweler Polisi Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar gollfarnau troseddol.

Mae angen tri math o ddull adnabod ar gyfer cwblhau gwiriad GDG. Mae'r rhestr lawn o ddull adnabod derbyniol ar gael yn Canllawiau gwirio dull adnabod GDG - GOV.UK

Bydd angen diweddaru holl dystysgrifau GDG bob 3 blynedd, fodd bynnag mae gan yr awdurdod trwyddedu'r hawl i wneud cais am dystysgrif newydd ar unrhyw adeg.

Rhaid i gost holl dystysgrifau GDG gael ei ysgwyddo gan y gyrrwr oni bai ei fod yn gais arbennig gan yr awdurdod trwyddedu.

**Perthnasedd Euogfarnau a Rhybuddion**

Wrth benderfynu os yw ymgeisydd yn unigolyn cymwys ac addas i dderbyn trwydded, bydd yr
Awdurdod Trwyddedu yn ystyried rhybuddion ac euogfarnau, wedi dod i ben neu heb ddod i ben.

Bydd pob achos yn cael ei benderfynu ar ei rinwedd ei hun ac nid yw unigolyn ag euogfarn am drosedd ddifrifol yn cael ei wahardd yn awtomatig rhag cael trwydded, ond fel arfer byddai disgwyl iddo/iddi:

- Barhau heb unrhyw euogfarn am gyfnod priodol
- Darparu tystiolaeth eu bod yn unigolyn cymwys ac addas

Bydd disgwyl i ymgeiswyr ddatgelu holl euogfarnau blaenorol, gan gynnwys rhybuddion, rhybuddion cosb, gorchmynion neu gerydd blaenorol, ac unrhyw achos llys sy'n aros am ddedfryd. Bydd methu â gwneud hyn yn arwain at atgyfeirio'r cais at y Pwyllgor Trwyddedu a Rheoli Cyffredinol i benderfynu ar eu cais.

Rhaid i droseddau traffig o fewn y 5 mlynedd ddiwethaf hefyd gael eu datgelu yn yr un ffordd ag unrhyw euogfarnau eraill.

Gellir cael mwy o wybodaeth yn y polisi GDG ac euogfarnau.

**Yr hawl i weithio yn y Deyrnas Unedig**

Mae'n ddyletswydd ar yr Awdurdod Trwyddedu i sicrhau bod gennych chi hawl i weithio yn y Deyrnas Unedig. Mae'n bosibl y bydd methu â darparu'r wybodaeth a ofynnir amdani yn y rhestr wirio hawl i weithio, atodiad A yn golygu y bydd eich cais yn cael ei wrthod.

Mae'n ofynnol i holl ymgeiswyr trwydded Cerbyd Hacni a Cherbyd Hurio Preifat nad ydynt o'r DU, i ddarparu Tystysgrif Ymddygiad Da wedi'i ysgrifennu yn Saesneg neu ddogfen gyfwerth gan y Llysgenhadaeth neu Uwch Gomisiwn y wlad/gwledydd y maent wedi byw ynddynt.

Fel rhan o'r broses drwyddedu, rhaid i ymgeiswyr nad ydynt o'r DU, gofrestru eu trwyddedau gyrru nad ydynt o'r DU gyda'r DVLA er mwyn gallu cyflwyno trwydded gyfatebol y DU iddynt.

**Gwiriad Treth**

Rhaid i holl geisiadau adnewyddu ddod gyda gwiriad treth. Mae hyn hefyd yn gymwys os yw trwydded wedi dod i ben o fewn y 12 mis diwethaf. Ni fydd ceisiadau adnewyddu'n cael eu prosesu heb god treth.

**Gwiriad NAFN**

Bydd yr awdurdod trwyddedu'n cynnal gwiriad ar y rhwydwaith gwrth-dwyll cenedlaethol ar gyfer gyrwyr sydd wedi cael eu gwrthod, dirymu a/neu wahardd. Disgwylir i yrwyr ddatgelu unrhyw drwyddedau blaenorol yr oedd ganddynt gydag unrhyw awdurdod trwyddedu arall.

**Archwiliad Meddygol**

Rhaid i'r dystysgrif feddygol gael ei gynhyrchu gan yr ymgeisydd bob 5 mlynedd tan 65 oed, ac ar ôl hynny rhaid ei gynhyrchu bob blwyddyn. Gall yr awdurdod trwyddedu wneud cais am adroddiad meddygol ychwanegol ar unrhyw adeg.

Dylai gyrwyr fod yn ymwybodol o ddyddiad y daw'r dystysgrif i ben a darparu un newydd cyn y dyddiad hwn. Bydd methu â gwneud hyn yn arwain at wahardd trwydded y gyrrwr.

Rhaid i'r ymgeisydd dalu am gost holl archwiliadau meddygol.

Mae'r ffurflenni archwiliad meddygol ar gael ar-lein er mwyn i'r ymgeiswyr eu cyflwyno i'w meddyg.

Disgwylir i'r holl yrwyr gludo cŵn tywys heb godi tâl ychwanegol am wneud hyn, fodd bynnag mae eithriadau'n bodoli ar gyfer y gyrwyr hynny sydd â chyflwr meddygol gwirioneddol a gaiff ei waethygu wrth ddod i gyswllt â chŵn. Rhaid darparu tystysgrif feddygol i'r awdurdod trwyddedu'n datgan hyn.

**Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Ddiogelu ar gyfer Gyrwyr Cerbydau Hurio Preifat a Cherbydau Hacni a Phrawf Gwybodaeth**

Mae'n ofynnol i holl ymgeiswyr fynychu hyfforddiant ymwybyddiaeth o ddiogelwch a chwblhau a phasio prawf gwybodaeth.

Nod yr hyfforddiant yw bod gyrwyr yn deall y telerau angenrheidiol, yn gallu adnabod ffactorau risg ac yn gwybod pryd i gymryd camau gweithredu a theimlon hyderus i gymryd y camau hynny. Mae hefyd yn rhoi cyfle i ddarpar yrwyr ofyn unrhyw gwestiynau mewn perthynas â diogelu.

Yna mae'n ofynnol i yrwyr gyflawni a phasio prawf gwybodaeth, ac mae'r prawf yn cynnwys pum rhan.

1. Daearyddiaeth leol (ymgeiswyr cerbydau hacni yn unig)
2. Rheolau'r Ffordd Fawr
3. Polisi Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat
4. Rhifedd a thaliadau
5. Camfanteisio yn Rhywiol ar Blant

Bydd y cyfraddau pasio ar gyfer pob rhan yn cael eu hegluro cyn dechrau'r prawf. Gellir ail-sefyll y prawf pan fo angen.  Bydd ceisiadau ond yn cael eu cymeradwyo unwaith i'r gyrrwr gwblhau a phasio'r prawf hwn a bod yr holl ddogfennau eraill wedi cael eu derbyn.

Gellir cyflawni'r prawf ar unrhyw adeg, ac nid oes angen i'r ymgeisydd aros nes i'r holl ddogfennau eraill gael eu cyflwyno cyn cwblhau prawf.

Mae profion ac ail-sefyll profiad yn digwydd bob mis a gellir eu harchebu a thalu amdanynt ar-lein. Mae'r dyddiadau ar gyfer profion ac ail-sefyll profion wedi'u trefnu ac ni ellir eu haddasu.

Er mwyn cwblhau prawf, cynghorir yr ymgeiswyr i edrych ar y dogfennau canlynol sydd ar ein gwefan

- Is-reolau Cerbydau Hacni (ymgeiswyr cerbydau hacni yn unig)
- Amodau cerbydau hurio preifat
- Profion enghreifftiol

Dylid cael cyngor a chanllawiau o ran y prawf gan y cyflogwr neu'r gweithredwr gyn gwneud cais.

Gall bolisïau a deddfwriaethau newid o dro i dro, a chyfrifoldeb yr ymgeisydd yw cyfarwyddo eu hunain â'r newidiadau hyn.